Swansea University
Prifysgol Abertawe

Cronfa
Setting Research Free

**Cronfa - Swansea University Open Access Repository**

This is an author produced version of a paper published in :
*Gwerddon*

Cronfa URL for this paper:
http://cronfa.swan.ac.uk/Record/cronfa27121

**Paper:**
Edwards, S. (2016). Efrydiau athronyddol: etifeddiaeth y dylid ei thrysori. *Gwerddon, 21*(Ebrill), 13-25.

This article is brought to you by Swansea University. Any person downloading material is agreeing to abide by the terms of the repository licence. Authors are personally responsible for adhering to publisher restrictions or conditions. When uploading content they are required to comply with their publisher agreement and the SHERPA RoMEO database to judge whether or not it is copyright safe to add this version of the paper to this repository.
http://www.swansea.ac.uk/iss/researchsupport/cronfa-support/

Yr Athro Steven Edwards

# *Efrydiau Athronyddol*: etifeddiaeth y dylid ei thrysori

Gwerddon

CYFNODOLYN ACADEMAIDD CYMRAEG

Golygydd: **Dr Anwen Jones**

# *Efrydiau Athronyddol*: etifeddiaeth y dylid ei thrysori

## *Yr Athro Steven Edwards*

### Gwreiddiau

Cyfnodolyn Adran Athroniaeth Urdd y Graddedigion oedd yr *Efrydiau Athronyddol*, a chyflwynwyd y rhan fwyaf o'r erthyglau yn ystod cynhadledd flynyddol yr Adran, digwyddiad sy'n parhau i gael ei gynnal hyd heddiw. Cyhoeddwyd cyfrol gyntaf yr *Efrydiau* yn 1938 gan Wasg Prifysgol Cymru, a pharhaodd y cyfnodolyn hyd at 2006. Ar y dechrau, câi ei olygu gan fwrdd golygyddol a oedd yn cynnwys D. James Jones (Ysgrifennydd), Herbert Morgan, David Phillips a Hywel Lewis. Cadeirid y bwrdd golygyddol gan yr Athro R. I. Aaron (1901–87), ac ar ôl y gyfrol gyntaf golygwyd yr *Efrydiau* gan Aaron ei hun hyd at 1968. O 1969 hyd 1986, fe'i golygwyd gan T. A. Roberts, ac yn olaf gan John Daniel a Walford L. Gealy o 1987 hyd at 2006, pan ddaeth yr *Efrydiau* i ben. Cymraeg yn ddieithriad oedd iaith y cyfnodolyn.

Cafwyd disgrifiad o'r datblygiadau a arweiniodd at sefydlu'r *Efrydiau* mewn erthygl gan D. James Jones (1938). Dywed fod ysfa wedi codi am gyfarfod blynyddol ymhlith graddedigion a oedd yn awyddus i drafod problemau athronyddol yn y Gymraeg. Felly, penderfynwyd trefnu cyfarfod er mwyn cynllunio hyn a chyflwynwyd y syniad o 'ffurfio rhyw fath o gymdeithas i hyrwyddo astudiaeth o Athroniaeth ymhlith y Cymry' (1938: 72). Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf yr egin fudiad ar 22 Gorffennaf 1931 yng Ngholeg Prifysgol Aberystwyth a phenderfynwyd sefydlu cymdeithas athronyddol yn ogystal â threfnu cynhadledd flynyddol. Lansiwyd y gymdeithas yn ffurfiol yn 1932 a chynhaliwyd ei chynhadledd gyntaf yn Aberystwyth rhwng 25 a 26 Medi 1932. 'Adran Athronyddol Urdd y Graddedigion' ('yr Adran' ar ôl hyn) oedd enw ffurfiol y grŵp. Cymraeg oedd iaith swyddogol y Gymdeithas a chyhoeddwyd ei phrif amcanion, sef: 'cyfieithu clasuron athronyddol i'r Gymraeg ... (ac) ymorol am dermau Cymraeg addas ar gyfer gwahanol ganghennau Athroniaeth' (1938: 73).

Er mai Cymraeg oedd iaith swyddogol yr Adran, dywed D. James Jones: 'Tueddai'r aelodau pan gynhesai'r drafodaeth, i droi'n fynych i'r Saesneg' (1938: 73). Digwyddai hyn er gwaethaf y ffaith bod pawb yn gwbl rugl yn y Gymraeg. Daeth 'tua 27' i'r ail gynhadledd a daeth 'tua 21' i'r drydedd (1938: 74). Gwelwyd yn eu plith athronwyr o'r adrannau Athroniaeth yng Nghymru bryd hynny, megis Aberystwyth, Abertawe a Choleg Harlech, ac roedd graddedigion mewn pynciau fel Diwinyddiaeth a Mathemateg yn bresennol yno hefyd. Tynnir sylw at un peth arall gan D. James Jones sydd o ddiddordeb. Yn ystod cynhadledd yn Neuadd Beck, Coleg Prifysgol Abertawe, yn 1934, bu rhai o aelodau'r gynulleidfa yn euog o 'hepian yn glywadwy'; digwyddodd hyn yn sgil y 'gwres llethol', meddai (1938: 75).

Wedi iddynt gynnal sawl cynhadledd, cyflwynwyd y syniad o gyhoeddi'r papurau a draddodwyd ynddynt mewn 'Bwletin', ac ar ôl iddynt siarad â Gwasg Prifysgol Cymru, awgrymodd y wasg y teitl *Efrydiau Athronyddol* a chytunwyd i sefydlu bwrdd golygyddol

gydag R. I. Aaron (a oedd bellach yn Athro yng Ngholeg Prifysgol Aberystwyth) yn gadeirydd. Cyhoeddwyd rhifyn cyntaf y cyfnodolyn yn 1938 a gellid ei brynu am ddau swllt a chwe cheiniog; cyhoeddwyd chwe rhifyn olaf yr *Efrydiau* mewn un gyfrol amhrisiadwy dan y teitl *Hanes Athroniaeth y Gorllewin* (Daniel a Gealy, 2009). Wedi cyflwyno tipyn o hanes y cyfnodolyn, troir yn awr at gynnwys ei rifyn cyntaf.

### Rhifyn cyntaf yr *Efrydiau*

Cyhoeddwyd tair erthygl ymchwil yn rhifyn cyntaf yr *Efrydiau* yn ogystal â'r erthygl am hanes yr Adran gan D. James Jones (1938). Ysgrifennwyd yr erthyglau gan yr Athro R. I. Aaron (Coleg Prifysgol Aberystwyth), Dr J. R. Jones (nad oedd yn Athro bryd hynny), a David Phillips (Coleg y Bala). Trafodir meysydd o fewn Epistemoleg (Aaron), Metaffiseg (J. R. Jones) a Moeseg (Phillips) yn yr erthyglau ac er mwyn rhoi blas o natur y rhifyn cyntaf, crynhoir erthyglau Aaron a Jones.

### 'Canfod' gan yr Athro R. I. Aaron

Gan y seilir ein gwybodaeth am y byd – i raddau helaeth – ar ganfod, gellir ystyried yr erthygl fel papur yn y maes Epistemoleg. Meddai, 'Ynddo (h.y. 'canfod') y tardd ein gwybodaeth o'r byd' (1938: 4). Trafodir y gwahaniaeth rhwng synhwyro a chanfod, a thynnir sylw at ddamcaniaeth 'yr Empeirwyr', sef Locke, Berkeley a Hume. Honnir gan athronwyr o'r fath bod y synhwyrau yn rhoi gwybodaeth i'r meddwl ('ffenomenau, data, (syniadau), delwau' (1938: 5)) ac yna bydd y meddwl yn gweithio ar yr wybodaeth er mwyn creu'r hyn a ganfyddir. Yn ôl Aaron, yn y ddamcaniaeth hon mae'r synhwyrau yn gwbl oddefol: derbynnir gwybodaeth o'r byd ganddynt a gyflëir i'r meddwl. Hefyd, ystyrir bod gwahaniaeth clir rhwng synhwyro ar y naill law a chanfod ar y llall: 'Tybir yn gyffredin gan athronwyr fod gwahaniaeth (rhwng canfod a synhwyro)' (1938: 3).

Trwy apelio at ymchwil a gynhelid mewn seicoleg bryd hynny, aeth Aaron ati i danseilio'r honiad fod synhwyro yn rhywbeth goddefol. Yn ôl Aaron, dengys ymchwil yr Ysgol Gestaltaidd fod y synhwyrau'n strwythuro'r pethau sy'n peledu'r organau synhwyraidd. Yn ogystal, llenwir 'bylchau' yn y maes canfyddiadol (*perceptual field*) gennym. Felly, hyd yn oed os derbynnir y gwahaniaeth rhwng canfod a synhwyro, ni ellir egluro'r gwahaniaeth ar sail yr honiad bod synhwyro yn broses oddefol tra bod canfod yn broses weithredol. At hynny, pwysleisia'r Ysgol Gestaltaidd ein bod yn synhwyro'r maes canfyddiadol fel cyfanswm yn hytrach nag fel 'atomau'; 'gweld yr atomau yw'r peth diwethaf yn ein profiad,' meddai Aaron (1938: 8). Ac, wrth gwrs, awgrymir gan yr ymchwil na chanfyddir y byd fel ag y mae.

Er bod Aaron yn dechrau'r erthygl gan gyfeirio at Locke, awgryma y gall y casgliadau hyn effeithio ar empeiriaeth yr Ysgol Bositifaidd. Byddai hyn yn wir i'r graddau ei bod yn rhagdybio bod synhwyro yn broses oddefol, ac i'r graddau ei bod yn rhagdybio bod profiad synhwyrol yn atomig yn hytrach na holistig. Yn hynny o beth, meddai Hanfling: '*the new empiricists maintained, as did their forbears, that knowledge is composed entirely of items* (h.y. profiadau atomig) *of sense experience*' (1981: t. 4); ac yn ôl Ayer, '*sense-content ... refer(s) to the immediate data not merely of "outer" but also of "introspective" sensation*' (1936: t. 71).

Disgrifir 'brawddegau protocol' gan Carnap fel hyn: cyfeiriant at yr hyn a welir yn syth, sef '*the simplest sensations and feelings*', megis *'joy now'*, neu *'here, now blue'* (1981: t.

154). Felly, ymddengys bod yr ysgol yn gwneud yr un math o gamgymeriad athronyddol ag a wnaethpwyd gan Locke (gweler hefyd Sellars (1956) yn hynny o beth).

Gwelir yn erthygl Aaron ddefnydd o iaith dechnegol y maes, megis 'epistemeg', 'empeirwyr', 'rhesymoliaeth' (1938: 4), ac felly dengys yr erthygl ei bod yn bosibl trafod pynciau athronyddol heb droi at y Saesneg. Yn ddiddorol, rhoddir sylw manwl i waith yr Ysgol Bositifaidd yn erthygl J. R. Jones hefyd.

**'Sylwadau ar broblem natur hunan' gan J. R. Jones**

Yn erthygl J. R. Jones dadansoddir natur yr hunan, ac mae'n dechrau drwy ddisgrifio'r dull a ddatblygwyd gan yr Ysgol Bositifaidd. Yn ôl Positifiaeth, oni bai fod termau'n cyfeirio at rywbeth, nid oes ganddynt ystyr. 'Fe ddadleuir gan y ... Positifiaid Rhesymegol,' meddai, 'nad oes gennym rithyn o dystiolaeth empeiraidd dros gredu bod y fath beth â hunan, a bod gosodiadau yn ei gylch o ganlyniad yn ddiystyr' (1938: 42).

Felly, caiff y gair 'bwrdd' ystyr gan ei fod yn cyfeirio at rywbeth, sef bwrdd, ac mae'n rhaid iddo fod yn wiriadwy (*empirically verifiable*). Ond ni cheir unrhyw 'dystiolaeth empeiraidd' i ddangos bod 'yr hunan' yn bodoli. Wrth gyfeirio at rywun – 'Smith' dyweder – cyfeiriwn at gorff Smith, yn hytrach nag at Smith ei hunan. Meddylir am yr hunan fel rhywbeth sydd y tu mewn i'r corff yn hytrach na'i fod yn union yr un peth â'r corff. Felly, nid yw gweld yr hunan o safbwynt y trydydd person yn bosibl ac ni ellir dod o hyd i ystyr y term 'yr hunan' wrth dynnu sylw at gorff y person yn unig. Tueddir i ystyried yr hunan fel rhywbeth sydd i'w weld trwy fewnsyllu. Ond wrth fewnsyllu, canfyddir syniadau penodol yn unig, e.e. meddylir am y gêm neithiwr neu ben-blwydd y mab, neu rywbeth arall. Ond ni ddeuir o hyd i'r hunan fel y cyfryw. Felly, os derbynnir dull yr Ysgol Bositifaidd, mae'r term 'yr hunan' yn gwbl ddiystyr. Yn ôl Ayer, profiadau synhwyrol yn unig a gawn ac adeiladir y syniad o fwrdd drwy ddadansoddi profiadau synhwyrol. Felly, meddai Ayer: '*the existence of a material thing is defined in terms of the actual and possible occurrence of the sense-contents which constitute it as a logical construction*' (1936: t. 162).

Adeiladir y cysyniad o'r hunan drwy gyfuno syniadau eraill. Meddai Ayer: '*We know that a self, if it is not to be treated as a metaphysical entity, must be held to be a logical construction out of sense experience*' (1936: t. 165). Ac aiff ymlaen i ddadansoddi'r hunan fel adeiladwaith o'r fath.

Ond nid oedd J. R. Jones yn cytuno ag ateb Ayer i'r broblem. Ni dderbyniai'r syniad mai 'gwneuthurdeb o elfennau synhwyrus yn unig yw'r hunan' (1938: 43); daeth ef i'r casgliad mai'r syniad o 'brofiad synhwyraidd' a ddefnyddir gan yr Ysgol Bositifaidd sydd yn anghywir. Yn hytrach na meddwl am yr hunan fel rhywbeth sy'n bodoli yn y presennol yn unig (fel ciplun), yr oedd J. R. Jones o'r farn fod profiadau synhwyraidd yn cynnwys y gorffennol, y presennol ac yn ymestyn tuag at y dyfodol. Ymhellach, mae i brofiadau synhwyraidd ryw fath o unoliaeth a anwybyddwyd gan yr Ysgol Bositifaidd. (Ac yn ddiddorol, sonia Ayer hyd yn oed am '*organic sense contents*' (1936: t. 165), sy'n awgrymu ei fod yn ymwybodol o'r broblem i raddau efallai.) Yn ôl J. R. Jones, er mwyn sylweddoli bod y profiad yn y presennol, mae'n rhaid sylweddoli nad yw yn y gorffennol neu'r dyfodol. Felly, nid ciplun o'r presennol yn unig yw profiad synhwyraidd; cynhwysir ynddo elfennau sydd y tu hwnt i'r profiad presennol gan J. R. Jones, a rhagdybir yr elfennau hyn gan y cysyniad o brofiad presennol, a hynny o angenrheidrwydd. Yn

y ffordd hon, ceisiodd J. R. Jones danseilio dull y Positifiaid drwy ganolbwyntio ar y dadansoddiad o'r hunan a'r syniad o brofiad synhwyraidd a ragdybiwyd gan yr ysgol hon.

Fel y gwelsom, canolbwyntiodd R. I. Aaron a J. R. Jones ar yr Ysgol Bositifaidd, ond ni welir unrhyw beth tebyg yn yr erthygl gan Phillips. Er bod Aaron a Jones yn mabwysiadu dull empeiraidd i raddau helaeth, derbyniodd Phillips y gallai pethau fodoli hyd yn oed os ydynt y tu hwnt i'r byd synhwyraidd, ac felly nid yw eu canfod yn bosibl o gwbl; at hynny, wrth ddadansoddi'r syniad o werth, sonia Phillips am Dduw, am Iesu a'r Beibl.

O ystyried tair erthygl y rhifyn cyntaf gyda'i gilydd, yr hyn sy'n drawiadol yw ansawdd yr erthyglau. Mewn gwirionedd, mae yma gyfrol o Athroniaeth bur sy'n cynnwys cyfraniadau o safon ar broblemau cyffredinol y maes, gydag erthyglau R. I. Aaron a J. R. Jones yn ymdrin â phynciau a oedd wrth galon Athroniaeth bryd hynny. O safbwynt dull, pwnc a phrif ffynonellau, mae'r ddwy erthygl hon yn debyg i waith ymchwil arall yn y maes yn y tridegau, a gallai'r tair erthygl fod wedi eu cyhoeddi mewn unrhyw gyfnodolyn yn y maes. Yn hynny o beth, gellid cymharu rhifyn cyntaf yr *Efrydiau* â rhifyn y cyfnodolyn *Mind* (prif gyfnodolyn y maes) yn yr un flwyddyn. Ni welir llawer o wahaniaeth rhwng cynnwys y ddau gyfnodolyn, e.e. yn yr un flwyddyn, yr oedd *Mind* yn cynnwys erthygl ar 'Language and moral philosophy' gan Helen Wodehouse (1938) a 'Logical positivism and scientific theory' gan C. D. Hardie (1938), yn ogystal ag erthyglau eraill ynglŷn ag athroniaeth Platon.

Mae rhifyn cyntaf yr *Efrydiau* yn cadarnhau'r ffaith y gellir ysgrifennu erthyglau safonol ar Athroniaeth bur gan ddefnyddio'r Gymraeg ac mae'r pwynt hwn yn bwysig iawn yn hanes yr iaith: os gellir trafod meysydd mewn pwnc mor astrus ag Athroniaeth, gellid ymdrin ag unrhyw bwnc yn y Gymraeg. Wedi trafod cynnwys rhifyn cyntaf yr *Efrydiau*, tynnir sylw yn awr at ei brif themâu.

**Prif themâu**

Dosbarthwyd yr erthyglau a gyhoeddwyd yn yr *Efrydiau* rhwng 1938 ac 1992 gan W. J. Rees (1993), ac yn ôl Rees, gellir rhannu'r erthyglau yn bedwar prif ddosbarth, sef:

A. Hanes Athroniaeth yn Ewrop (42 o erthyglau)
B. Hanes Meddwl yng Nghymru (56 o erthyglau)
C. Meysydd Athroniaeth (151 o erthyglau)
Ch. Athroniaeth a Phroblemau'r Oes (23 o erthyglau).

(Dilynwyd yr un drefn gan Walford L. Gealy wrth ddiweddaru'r rhestr yn 2006.)

Yn y dosbarth cyntaf, ceir erthyglau ar bynciau fel athroniaeth Platon a J. S. Mill, er enghraifft 'Metaffiseg Platon' gan J. R. Jones (1957) a 'Syniadau J. S. Mill ar Ryddid yr Unigolyn' gan T. A. Roberts (1979), a thrafodir syniadau pobl eraill megis Hume, Spinoza a'r Cymro Richard Price. Yn yr ail ddosbarth, ceir erthyglau ynghylch addysg yng Nghymru a llenyddiaeth Gymraeg, er enghraifft 'Addysg yng Nghymru yn ystod yr Oesoedd Canol' gan Glanmor Williams (1986), a 'Meddwl Cymru: Hanes ein Llên' gan M. Wynn Thomas (1989). Yn y trydydd dosbarth, ceir erthyglau ar Athroniaeth Wleidyddol ac Epistemeg, er enghraifft 'Gwybodaeth a Gwyddoniaeth' gan Peredur Powell (1987), ac yn y dosbarth olaf cyhoeddwyd erthyglau ar bynciau megis 'Y Plentyn a Throsedd' gan J. Aled Williams

(1967) ac 'Addysg Oedolion' gan E. Gwynn Matthews (1986). (Dangosir gan yr ystadegau uchod fod tua 75% o'r erthyglau'n perthyn i'r maes Athroniaeth, yn ôl W. J. Rees.)

Gan fod y trydydd dosbarth yn fwy o lawer na'r tri dosbarth arall, eir ati i ychwanegu at yr hyn yr ysgrifennwyd amdano eisoes yn yr erthygl hon. Mae 13 o isddosbarthiadau o fewn y dosbarth hwn, yn adlewyrchu prif ganghennau Athroniaeth, gan gynnwys Metaffiseg (11 erthygl), Athroniaeth Moeseg (19 erthygl) ac Athroniaeth Crefydd (24 erthygl). Athroniaeth Crefydd yw'r categori mwyaf, felly, a cheir erthyglau gan yr Athro D. Z. Phillips, megis 'Crefydd a Metaffiseg' (1971), a Mr Walford L. Gealy, 'Y syniad o Dduw fel Person' (1965).

Felly, er mai cyfnodolyn Athroniaeth bur ydoedd ar y dechrau, ehangwyd cwmpas yr *Efrydiau* yn sylweddol dros y blynyddoedd. Mae'r Athro J. R. Jones yn tynnu sylw at hyn mewn erthygl yn 1949: 'Ein harfer yng nghynhadledd flynyddol yr Adran yw ymdrin â phroblemau athronyddol pur. Ond fe dorrwyd tir newydd eleni drwy roi sylw i Gymru a thrafod cwestiynau athronyddol yn eu hymwneud â Chymru.' (1949: 1)

Gellid ystyried ei erthygl ef ar waith Ann Griffiths (1776–1805), yr emynyddes Fethodistaidd adnabyddus (J. R. Jones, 1950; gw. hefyd Gealy, 2012), yn enghraifft o'r fath. Ar ôl 1950 crebachodd y pwyslais ar Athroniaeth bur i raddau. Trodd yr *Efrydiau* yn gyfnodolyn rhyngddisgyblaethol, er mai Athroniaeth oedd ei brif bwyslais dan olygydd fel yr Athro R. I. Aaron.

Cynhelid cynadleddau Adran Athronyddol Urdd y Graddedigion yr un pryd ac yn yr un lle â chynhadledd flynyddol yr Adran Ddiwinyddol. Yn ôl y sôn, mynychai pobl sesiynau yn y ddau ddigwyddiad, yn ôl eu diddordebau, ac yn y pen draw cyfunwyd y ddwy gynhadledd. Yn ogystal, ar ôl 1949 estynnwyd gwahoddiad i ysgolhaig penodol o unrhyw faes i bob cynhadledd i gyflwyno'i waith academaidd (diolchaf i arfarnwr anhysbys am y pwynt hwn). Er enghraifft, mewn erthygl gan yr Athro T. H. Parry-Williams, dadansoddir y syniad o ddychymyg mewn barddoniaeth (1952). Aeth Parry-Williams ati i ddadansoddi tri ystyr gwahanol y gair 'dychymyg', a seiliwyd yr erthygl ar y dadansoddiad hwn. Dadleuir nad yw dychymyg yn ddigonol er mwyn creu barddoniaeth o safon; nid *brainstorming* yn unig yw creu barddoniaeth. Yn ôl Parry-Williams, ffurfir syniadau gan iaith ac ni ellir gwahanu'r ddau beth; nid cyfrwng i gyfleu syniadau yn unig yw iaith. Gan nad yw'n bosibl gwahanu iaith a syniadau, gellir mynegi syniadau gwahanol mewn ieithoedd gwahanol. Honnir, felly, fod colli iaith yn peri colli syniadau yr un pryd, ac mae hon yn ddamcaniaeth bwysig (gw. Goodman, 1978). Felly, er i'r *Efrydiau* gael ei sefydlu fel cyfnodolyn ar Athroniaeth bur, daeth tro ar fyd, ac ehangodd natur y gwaith a gyhoeddwyd ynddo.

Yn rhan nesaf yr erthygl, trafodir papur gan yr Athro J. R. Jones a fyddai'n dylanwadu ar y Cymry am flynyddoedd i ddod (gw. e.e. Brooks a Roberts, 2013), a chrisialir rhinweddau'r *Efrydiau* ganddo, yn fy marn i.

**Y 'Syniad o Genedl' gan yr Athro J. R. Jones**

Darlledwyd darlith hanesyddol Saunders Lewis, *Tynged yr Iaith*, ar 13 Chwefror 1962. Ynddi galwodd Saunders am fabwysiadu dulliau 'chwyldro' er mwyn achub yr iaith Gymraeg. Cysylltodd barhad yr iaith Gymraeg â pharhad y Cymry fel cenedl (gw. Lewis, 2012: t. 69) ac yn sgil y ddarlith, sefydlwyd Cymdeithas yr Iaith ym Mhontardawe ym mis

Awst yr un flwyddyn (Phillips, 1998: t. 56). Yn y rhagair i ail argraffiad y ddarlith, meddai Saunders Lewis: 'Llyfrau a phamffledau J. R. Jones yw clasuron ein cenedlaetholdeb ni heddiw' (2012: t. 35). Ac yn ôl yr Athro D. Z. Phillips: '(J. R. Jones) oedd prif ysbrydoliaeth athronyddol Cymdeithas yr Iaith' (1995: t. 9).

Felly, llwyddodd J. R. Jones i ysgrifennu rhywbeth a fyddai'n ysbrydoli pobl drwy fynegi rhyw fath o weledigaeth bwysig. Yr oedd yr *Efrydiau*, yn ogystal â chynhadledd flynyddol yr Adran athronyddol, yn fforwm pwysig iawn iddo. Mewn cyd-destun o'r fath gallai fynegi a datblygu'r syniadau a ddylanwadodd ar Saunders Lewis, a thrwy hynny ddylanwadu ar y Cymry fel cenedl.

O sôn am y gair 'cenedl', cenedligrwydd oedd prif thema'r *Efrydiau* yn 1961, sef y flwyddyn cyn i Saunders Lewis ddarlledu *Tynged yr Iaith*. Yn erthygl gyntaf y rhifyn, dadleuodd J. R. Jones fod colli'r iaith yn golygu tranc y Cymry fel pobl, yn ogystal ag fel cenedl. Mae'n debyg i'r erthygl ddylanwadu ar Saunders Lewis y flwyddyn cyn ei ddarlith hanesyddol, ac yn sicr ceir tystiolaeth iddo fynychu'r gynhadledd flynyddol o dro i dro (gw. J. R. Jones, 1949: 46). Cyhoeddwyd 'Y syniad o genedl' yn 1961, yn dilyn ei chyflwyno i gynhadledd yr Adran yn ystod y flwyddyn academaidd 1959–60. J. R. Jones oedd Llywydd y Gymdeithas y flwyddyn honno, a chenedligrwydd oedd prif thema'r gynhadledd. Yn yr erthygl gwahanir y cysyniadau o 'genedl' a 'phobl' gan J. R. Jones (1961: 5) ac amlinellir y gwahaniaeth hwn drwy'r cysyniadau canlynol: hanes, iaith, tir a diwylliant. (Wedi amlinellu'r gwahaniaeth hwn, cyfeiriai J. R. Jones ato sawl gwaith mewn cyhoeddiadau eraill, e.e. *Prydeindod* (1966) a *Gwaedd yng Nghymru* (1970).)

Dadleua J. R. Jones fod iaith, tir, diwylliant a hanes yn rhan o fod yn genedl, ond nid yw'r elfennau hyn ar yr un lefel fel petai. Meddylia am hanes fel 'ffrâm' (1961: 5) a lenwir gan yr elfennau eraill. Felly, os ceir ffrâm yn ogystal ag iaith, tir a diwylliant, ceir cenedl. Ond os ceir iaith, tir a diwylliant yn unig, ni cheir cenedl; pobl yn unig a geir mewn achos o'r fath. Ymhellach, ar sail ei ddadansoddiad, meddai, '*pobl* ydym (y Cymry), yn raddol ddiflannu gyda'n hiaith' (1961: 6). Pobl, felly, nid cenedl yw'r Cymry, yn ôl J. R. Jones, a chan fod yr iaith yn nodwedd anhepgorol o fod yn bobl, pe collai pobl eu hiaith, byddent yn colli eu hunaniaeth yr un pryd. Felly, pe na fodolai'r Cymry fel cenedl a phe collent yr iaith Gymraeg, ni fyddent yn bodoli fel pobl: 'Ni all *pobl*, gan hynny, pan nad ydynt yn ddim ond pobl, golli eu hiaith heb golli eu hunaniaeth' (1961: 5). Ond eto, yn ôl J. R. Jones, gall cenedl golli ei hiaith a pharhau i fod yn genedl; gallai hyn ddigwydd ar yr amod bod y 'ffrâm' yn parhau hefyd. Honna y gwelir achos o'r fath yn Iwerddon gan i'r Gwyddelod golli eu hiaith – i raddau helaeth – ond parhânt yn genedl, yn ogystal ag fel pobl. Gan hynny, pe collai pobl eu hiaith heb iddynt fod yn genedl, ni pharhaent: byddent yn diflannu.

Sut y daeth J. R. Jones i'r casgliad hwn? Honna fod siarad yr un iaith yn rhywbeth hanfodol i fod yn genedl, gan fod iaith yn rhan o'r 'clymau crai' (1961: 3). Os ydynt yn byw gyda'i gilydd, rhaid i bobl gyfathrebu â'i gilydd yn llwyddiannus. Er hynny, mae'n amlwg nad yw siarad yr un iaith yn ddigonol er mwyn perthyn i'r un genedl (meddylier am y Gwyddelod a'r Saeson). Deuir felly at y nodwedd nesaf, sef tir. Er mwyn bod yn genedl, mae'n rhaid i bobl fyw ar ryw ddarn penodol o dir. Felly, disgrifia J. R. Jones dir y Cymry fel yr hyn sy'n bodoli rhwng Lloegr a'r môr Celtaidd. Honnir mai'r 'traddodiad diwylliannol' (1961: 4) yw'r trydydd 'cwlwm crai' (yn ychwanegol at iaith a thir), sef

traddodiadau crefyddol, llenyddol a chwedlau sy'n perthyn i'r grŵp, yn ogystal ag arferion eraill. Gall y rhain gynnwys agweddau creadigol ar fywyd, megis drama, llên gwerin, ac ati.

Hyd yma, soniwyd am iaith, tir a diwylliant, ond beth am hanes? Yn ôl J. R. Jones, ffurfir cenedl dros amser, dros gyfnod sylweddol fel arfer, ac felly mae gan bob cenedl ei hanes: 'Cymundod yw cenedl a luniwyd gan hanes' (1961: 3).

Yn amlwg, ni fyddai pobl yn bodoli oni bai eu bod yn 'cenhedlu' ac yn eu tro wedi'u cenhedlu. Ni ellir creu cenedl dros un genhedlaeth. Felly, er mai yn y presennol y mae pobl yn byw, wrth gwrs, yr un pryd ceir agweddau hanesyddol ar eu bodolaeth: 'y mae'r gorffennol i mewn yng ngwneuthuriad y cymundod, ac o'r safbwynt hwn, *cymuniad mewn Amser* ydyw. ... (A gwelwn felly) yn ogystal â bod yn gymundod iaith a thir a thraddodiad y mae "pobl" yn gymundod tynged, y mae iddynt hanes.' (1961: 6)

Felly, awgryma J. R. Jones fod gan bobl glymau dwfn, sef hanes, iaith, tir a diwylliant. Ond eto nid yw cysylltiadau o'r fath yn ddigonol i fod yn genedl. Felly, hyd yma, ni chawn ddiffiniad clir o'r hyn sy'n gwahanu pobl a chenedl. Hyd yn hyn, clywsom fod yn rhaid cael iaith, tir, ac ati, a phwysleisir yr agwedd hanesyddol ganddo, ond ni wyddom pam. Ateb J. R. Jones yw: 'daliaf fi mai rhan bwysig o ystyr bod yn genedl yw ymwybod â bod yn genedl' (1961: 7).

Felly, mae'n rhaid i bobl fod yn ymwybodol o'u hanes er mwyn bod yn genedl. Gyda hynny, ceir agwedd hanesyddol ar bob pobl a phob cenedl. Ond yr hyn sy'n troi pobl yn genedl yw bod yn ymwybodol o'u hanes.

Er mwyn manylu ar y pwynt hwn, try J. R. Jones at gerdd gan Waldo Williams sy'n dechrau â'r cwestiwn, 'Beth yw bod yn genedl?' Atebir y cwestiwn gan y bardd fel hyn: 'Cadw tŷ mewn cwmwl tystion' (1961: 7; Williams, 2010: t. 55). Rhagdybir yr elfen hanesyddol yn yr ymadrodd cofiadwy hwn, gyda'r gair 'cadw' yn awgrymu rhywbeth y cafwyd perchnogaeth arno dros gyfnod o amser. Hefyd, cyflëir gan y gair 'tŷ' y syniad o bobl mewn perthynas agos â'i gilydd, gan eu bod yn byw dan yr un to, fel petai. Mae 'tŷ' yn awgrymu syniadau o iaith, tir (mae'r 'tŷ' yn sefyll ar ddarn o dir), yn ogystal â'r elfen amserol (trwy'r gair 'cadw'). Beth am yr elfen ddiwylliannol? Cyflëir yr elfen hon i raddau gan y geiriau 'cwmwl tystion'. Cynigia'r tystion eu barn am yr hyn sy'n digwydd yn y 'tŷ'; yn sgil y broses hon mireinir y farn honno, ac wrth i amser fynd rhagddo try'r straeon yn chwedlau am y rheiny a arferai fyw yn yr un tŷ. Mae hanes y 'tŷ' yn ogystal â hanes y bobl sy'n byw ynddo – ynghyd â'r rheiny a arferai fyw ynddo – yn cael ei gadw gan y cwmwl tystion. Felly, byddai trigolion y tŷ yn ymwybodol i raddau o hanes y tŷ, gan gynnwys hanes y rheiny a arferai fyw ynddo. Trwy broses o'r fath mae hanes fel petai'n byw, ac felly gwelir y ddwy elfen amserol yr oedd J. R. Jones am dynnu ein sylw atynt: y presennol, wrth gwrs, ond dylanwadir ar y presennol gan y gorffennol. Sonia hefyd am y syniad o gof cenedlaethol, sef 'cof (sydd) yn rhychwantu'r oesau' (1961: 8).

Dyna syniadaeth J. R. Jones felly am genedl. Gŵyr wrth gwrs nad yw pawb mewn cenedl yn wybodus am ei hanes, ond awgrymir hanes y genedl drwy 'symbolau cenedlaethol, ac yn enwedig sefydliadau gwladol a diwylliannol symbolig' a chyda siom, meddai, 'yn ofer yr edrychir am enghreifftiau amlwg ym mywyd Cymru' (1961: 10). Er hynny, tynnir sylw at restr hir iawn o symbolau o'r fath sy'n pwysleisio ac yn cryfhau

hunaniaeth y Saeson. Cyfeiria at bethau cyffredin fel stampiau, arian, y frenhiniaeth, San Steffan, Jac yr Undeb, ac ati. Mae'r rhain yn cysylltu'r Saeson â'u hanes. Felly, heb fymryn o addysg ffurfiol ynghylch hanes Lloegr, cysylltir y Saeson â hanes y wlad drwy symbolau o'r fath: 'Y symbolau hyn yw ei dystion i'r pwy ydyw' (1961: 10).

Mae'n glir fod J. R. Jones yn ystyried bod y Saeson yn genedl ond, yn sgil prinder symbolau cenedlaethol nad yw'r Cymry yn genedl. Er gwaethaf y ffaith bod yr iaith yn bodoli, ac y ceir digwyddiadau diwylliannol fel yr Eisteddfod Genedlaethol, ni welir symbolau mor gryf, mor ddylanwadol ac mor ymdreiddiol â'r rheiny sydd gan y Saeson; nid yw'r Cymry'n eu gweld eu hunain 'fel Trac oesol mewn amser' (1961: 11). Dirywiodd popeth yn dilyn y Ddeddf Uno yn 1536, yn ôl J. R. Jones. Gan na chafwyd 'sefydliadau gwladol gwahaniaethol Cymreig' (1961: 15), nid oedd unrhyw obaith o feithrin sefydliadau a fyddai'n rhoi parhad i'r genedl, ac fel y gwyddys, nid oedd rhywbeth mor sylfaenol ag addysg ar gael drwy'r Gymraeg am gyfnod sylweddol (gw. Phillips, 1998). Er hynny, mynna J. R. Jones fod y Cymry'n parhau fel *pobl* er nad ydynt yn genedl a hynny oherwydd eu bod yn byw ar yr un tir, yn siarad yr un iaith ac yn rhannu'r un diwylliant (1961: 16). Ond gan nad yw eu cenedlaetholdeb yn rhywbeth 'gwarantedig, rhagdybiedig' (1961: 10), nid yw'r Cymry'n genedl. Felly, yn y bôn, nid yw'r Cymry'n genedl gan eu bod wedi 'colli' neu anghofio eu hanes ac er eu bod yn parhau fel pobl, mae hyn yn llwyr ddibynnol ar barhad yr iaith. Os na phery'r iaith, ni fydd y Cymry'n bodoli fel cenedl na hyd yn oed fel pobl.

Gellir deall sut y byddai dadl J. R. Jones yn ysbrydoli Saunders Lewis. Ystyrier y geiriau dirdynnol hyn: 'Peth ofnadwy, oni'th ddi-genedligwyd di dy hun' (1961: 17). Yn ôl J. R. Jones, nid yw'r Cymry'n genedl gan nad ydynt yn ymwybodol o'u hanes. Ni welir y symbolau dros y wlad sy'n clymu'r presennol wrth y gorffennol. Gwelir themâu tebyg iawn i'r rheiny a welwyd yn 'Y syniad o genedl' yn narlith Saunders Lewis, e.e. cyfeiria at 'ein diffyg ni o ymwybyddiaeth cenedl' (2012: t. 55), a chysylltir parhad y Cymry a Chymru â pharhad yr iaith ganddo (2012: t. 41). Yn yr un modd, cwyna am y modd y cafodd meysydd addysg a gwleidyddiaeth eu Seisnigo dros y canrifoedd, a gwelir hefyd yr un pwyslais ar agweddau hanesyddol ar sefyllfa'r Cymry. Mae dylanwad erthygl J. R. Jones ar Saunders Lewis yn gwbl amlwg felly; ond a oedd dadansoddiad J. R. Jones yn gywir?

Wrth gloriannu ei ddadl, mae J. R. Jones yn troi at Gernyw a'r Gernyweg er mwyn dangos y cyswllt rhwng iaith a phobl. Gan eu bod wedi colli eu hiaith ac nad ydynt yn genedl, mae'r Cernywiaid wedi diflannu fel pobl hefyd, ac wedi eu Seisnigo'n llwyr. Efallai fod Jones yn rhagdybio'r ateb yn hyn o beth i raddau. Ond eto, trwy ddefnyddio'r trosiad o'r 'tŷ', gellir honni nad yw 'tŷ' y Cernywiaid yn wahanol i unrhyw 'dŷ' arall yn Lloegr. Erbyn hyn, Saesneg yw iaith trigolion y 'tŷ', ac mae'n rhannu'r un diwylliant a hanes. Saif y 'tŷ' yn Lloegr, wedi'i lyncu gan y Saeson.

Ond ceir tair problem arall ynghylch dadansoddiad J. R. Jones. Yn gyntaf, dibynna i raddau helaeth ar y syniad o fod yn ymwybodol o hanes gwlad. Gellir codi'r cwestiwn, beth yw bod yn ymwybodol o hanes unrhyw wlad? Faint o wybodaeth sydd ei hangen? Pa fath o wybodaeth? Gan ei fod yn sylweddoli nad oes llawer o Saeson yn gwybod llawer am hanes Lloegr, mae J. R. Jones yn dadlau y gall rhywun fod yn ymwybodol o'i hanes drwy symbolau cyffredin, fel arian, stampiau a'r frenhines, ac ati. Ond yn yr un

modd, gellid dadlau bod yr iaith Gymraeg ac enwau lleoedd Cymraeg yn cysylltu'r Cymry â'u hanes i raddau. Hefyd, trwy bwysleisio agwedd seicolegol y cwestiwn, tybed a yw J. R. Jones yn troi cwestiwn athronyddol yn gwestiwn seicolegol? Codir y problemau hyn gan y strategaeth a fabwysiadwyd ganddo yn yr erthygl. Yn ail, gan ei fod yn chwilio am elfennau *hanfodol* y cysyniad o genedl, rhagdybir y ceir hanfod yn y lle cyntaf. Ond yn ôl yr athronydd Wittgenstein (1953), nid oes gan sawl cysyniad elfennau hanfodol o gwbl, er enghraifft y cysyniad o 'gêm'. Honna Wittgenstein na cheir un peth cyffredin i bob gêm (ond gw. Suits (1978) yn hyn o beth) a dangosir rhywbeth pwysig gan hynny, sef na ddylid rhagdybio bod gan bob cysyniad elfennau hanfodol.

Yn drydydd, cyfyd problem sylfaenol ynghylch dadansoddiad J. R. Jones mewn llyfr gan Margaret Canovan (2005) sy'n olrhain hanes yr ymadrodd 'y bobl'. Wrth wneud hynny, daw Canovan i'r casgliad nad oes yn rhaid i unigolyn siarad yr un iaith er mwyn bod yn aelod o'r 'bobl'. Dadleua mai prif swyddogaeth y cysyniad o'r 'bobl' mewn cyd-destun gwleidyddol oedd gwahanu'r brenin oddi wrth y bobl gyffredin. Wedi gwneud hyn, gellir llunio dwy gyfundrefn wleidyddol wahanol: gyda'r naill, rheolir 'y bobl' gan y brenin, ond gyda'r llall, rheolir y wlad gan y bobl. Ar un adeg, nid oedd yr ail gysyniad yn ddirnadwy gan nad oedd gan bobl gyffredin unrhyw rym gwleidyddol o gwbl. Serch hynny, dylanwadodd syniadau John Locke (1964) ar lawer yn hyn o beth, ac yn ôl Locke, dylai'r wlad gael ei rheoli gan y bobl, yn hytrach na chan y brenin. Arweiniodd hynny at y syniad o hawliau cyfartal. Dylanwadodd syniadau o'r fath ar wleidyddion yr Unol Daleithiau ac yno honnir bod y llywodraeth yn rheoli'r wlad *ar ran* y bobl a bod y llywodraeth yn atebol i'r bobl; gweler y Datganiad Annibyniaeth (Canovan, 2005: t. 31).

Os derbynnir y pwyntiau hyn, ac o gofio mai gwlad amlieithog ac amlhiliol yw'r Unol Daleithiau, gallai hyn danseilio damcaniaeth J. R. Jones fod iaith, hanes a diwylliant yn gwahaniaethu pobl oddi wrth ei gilydd; gwrthodir y syniad mai'r 'bobl' yw'r bobl gyffredin, ni waeth pwy ydynt na lle y maent yn byw. Yn ôl Canovan, clymir pobl yr Unol Daleithiau gan y ffaith eu bod yn derbyn yr un Mesur Iawnderau, fel y'i sefydlwyd yng Nghyfansoddiad y Wlad. Heblaw hynny, mewn egwyddor o leiaf, gan y gall unrhyw un o unrhyw wlad ymuno â'r wlad honno, gall y syniad o'r 'bobl' ymestyn i gynnwys pawb yn y byd ar yr amod eu bod yn barod i dderbyn cyfansoddiad yr Unol Daleithiau. Felly, yr hyn sy'n diffinio'r bobl fel pobl Americanaidd yw'r ffaith eu bod yn derbyn yr un cyfansoddiad, gan gynnwys y Mesur Iawnderau, yn hytrach na'r gallu i siarad yr un iaith.

Felly, gellir defnyddio'r syniad o'r 'bobl' mewn dau fodd. Yn ôl J. R. Jones, gellir *gwahanu* pobl drwy'r syniad, megis y Cymry a'r Saeson. Yn ôl Canovan, fodd bynnag, gall yr un cysyniad *uno* pob person yn y byd. Adlewyrchir dwy strategaeth wahanol gan y gwrthgyferbyniad rhwng y ddau syniad. Yn ôl y naill, mae cynnal, cadw a pharchu pob gwahaniaeth ieithyddol yn bwysig oherwydd y cysylltiadau rhwng iaith, diwylliant a meddylfryd. Ond yn ôl y llall, y peth pwysicaf yw'r ffaith bod gan bob dyn hawliau sylfaenol. Mae'r ddau safbwynt o bwys wrth gwrs, ond ar yr olwg gyntaf, gellid dadlau mai'r ail yw'r pwysicaf gan ei fod yn rhoi sail gadarn i'r cyntaf. Hynny yw, yn sgil yr hawliau sydd gennym i benderfynu drosom ein hunain mae gan bob person yr hawl i ddewis ei iaith, ac felly mae hawliau'r unigolyn yn cynnwys hawliau ieithyddol. Ond wedi dweud hynny, nid mater o ddewis yn unig yw mamiaith; yn amlwg, nid ni ein hunain sy'n dewis ein hiaith gyntaf.

Mae'r pwynt hwn yn bwynt pwysig. Os meddyliwn am iaith fel dewis – fel rhywbeth dewisol – byddem yn meddwl am 'hawliau ieithyddol' fel hawliau negyddol yn unig. Felly, dylid parchu hawliau o'r fath, ar yr amod nad ydynt yn ymyrryd â hawliau negyddol pobl eraill. Ond gan na ddewisir ieithoedd cyntaf, ni ddylid meddwl am hawliau ieithyddol fel hawliau negyddol yn unig. Gall y pwynt hwn fod yn bwysig yng nghyd-destun gofal iechyd er enghraifft, lle y mae'n rhaid meddwl yn ofalus pa hawliau y dylid eu hariannu (e.e. yr hawl i dderbyn gofal iechyd) a pha hawliau na ddylid eu hariannu (e.e. hawliau ieithyddol yng nghyd-destun gofal iechyd). Er hynny, y prif bwynt yn y cyd-destun presennol yw i J. R. Jones anwybyddu agwedd arall ar y gair 'pobl', a gallai ystyried y ddwy agwedd ar y gair arwain at ddadansoddiad a allai ddatblygu ei syniadau ymhellach. Mae hyn yn bosibl oherwydd y gwaith a wnaethpwyd ganddo yn y man cyntaf wrth gwrs.

Ar ôl ysgrifennu 'Y syniad o genedl', mynnai J. R. Jones wahanu'r ddau gysyniad, sef pobl a chenedl, ond newidiwyd sail y gwahaniaeth. Aeth ymlaen i ysgrifennu am Brydeindod a'r modd y gallai'r syniad o Brydeindod olygu'r un peth â Seisnigrwydd. Felly, pe collai'r Cymry eu hiaith, byddent yn diflannu yn union fel a ddigwyddodd yn achos yr iaith Gernyweg. Gwelir felly fod ei erthygl yn haeddu mwy o sylw am sawl rheswm, ac nid am resymau hanesyddol yn unig. Yn ogystal â hynny, mae'n enghraifft ardderchog o'r gwaith a wnaethpwyd yn yr *Efrydiau*. Erthygl ryngddisgyblaethol ydyw i raddau, ond mae iddi sail athronyddol gadarn. Cafodd prif thema'r erthygl ddylanwad ar bobl eraill ledled Cymru, ac ar sail y gwaith a wnaethpwyd gan J. R. Jones yn yr erthygl, gellir symud ymlaen i ddatblygu a mireinio ei brif bwyntiau.

**Casgliad**

Felly, gwelir bod hanes diddorol a phwysig i athronyddu yn y Gymraeg. Gwnaeth athronwyr megis yr Athro R. I. Aaron a'r Athro J. R. Jones waith pwysig iawn ym maes Athroniaeth bur yn ogystal ag mewn cyd-destunau gwleidyddol, a gwelsom enghraifft arbennig o hyn yng ngwaith yr Athro J. R. Jones. Dengys ei erthygl y gall ymchwil ym maes Athroniaeth fod yn berthnasol iawn i broblemau gwleidyddol cyfredol, ac y gall sbarduno symudiadau gwleidyddol. Ar ben hynny, er iddi gael ei chyhoeddi dros hanner canrif yn ôl, trafodir problemau sy'n parhau'n berthnasol. Oherwydd yr *Efrydiau* ac Adran yr Urdd Athronyddol, braenarwyd y tir ar gyfer trafod pynciau perthnasol i Gymru o safbwynt athronyddol, yn ogystal â meithrin syniadau a damcaniaethau mewn cyd-destun addas. Heb ddechrau ymdrin â phynciau athronyddol oedd yn berthnasol i Gymru, yr oedd perygl y byddai'r *Efrydiau* yn ddim mwy na fersiwn 'Gymraeg' o gyfnodolyn Saesneg Athroniaeth bur, megis *Mind*. Yn ogystal, fel yr awgrymwyd gan J. R. Jones ei hun yn ôl yn 1949, gall ehangu gorwelion Athroniaeth 'bur' a thrafod pynciau mewn modd rhyngddisgyblaethol greu syniadau a phersbectifau newydd ar broblemau cyfoes.

Mae cynhadledd flynyddol yr Adran yn parhau i gael ei chynnal ac er na chyhoeddir yr *Efrydiau* bellach, cyhoeddir cyfres o gasgliadau o bapurau athronyddol (cyflwynir y mwyafrif ohonynt yng nghynhadledd flynyddol yr Adran) dan yr enw *Astudiaethau Athronyddol* (Matthews, 2012, 2013, 2014). At hynny, mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn ariannu swydd genedlaethol darlithydd mewn Athroniaeth, ac wedi cyhoeddi llyfrau J. R. Jones ar wefan 'y Porth' (www.llyfrgell.porth.ac.uk). Yn ogystal, cyhoeddwyd

cynnwys yr *Efrydiau* (o 1938 hyd at 2000) ar wefan y Llyfrgell Genedlaethol (www.llgc.org.uk). Felly, o gofio bod hen adran Athroniaeth J. R. Jones yn Abertawe bellach wedi cau, mae cyflwr Athroniaeth fel pwnc addysgu yng Nghymru wedi gwella i raddau. Beth bynnag a fydd yn digwydd yn y dyfodol, rhoddodd yr *Efrydiau* etifeddiaeth heb ei hail i ni, a dylem ei thrysori.

**Llyfryddiaeth**


Aaron, R. I. (1938), 'Canfod', *Efrydiau Athronyddol,* 1, 3–21.

Ayer, A. J. (1936), *Language, Truth and Logic* (Harmondsworth: Penguin).

Brooks, S., a Roberts, R. G. (2013) (goln), *Pa Beth yr Aethoch Allan i'w Achub?* (Llanrwst: Carreg Gwalch).

Canovan, M. (2005), *The People* (Cambridge: Polity).

Carnap, R. (1981), 'Protocol statements and the formal mode of speech', yn Hanfling, O. (gol.), *Essential Readings in Logical Positivism* (Oxford: Blackwell), tt. 150–60.

Daniel, J., a Gealy, W. L. (2009) (goln), *Hanes Athroniaeth y Gorllewin* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).

Gealy, W. L. (1965), 'Y syniad o Dduw fel person', *Efrydiau Athronyddol*, 28, 23–32.

Gealy, W. L. (2002), 'A brief history of philosophy in Wales and Phillips's contribution to philosophy in the Welsh language', yn Whittaker, J. H. (gol.), *The Possibilities of Sense* (Basingstoke: Palgrave), tt. 269–89.

Gealy, W. L. (2006), 'Efrydiau Athronyddol 1993–2006' (erthygl heb ei chyhoeddi).

Gealy, W. L. (2012), 'Ann Griffiths a'r Athro J. R. Jones', yn Matthews, E. G. (gol.), *Cred, Llên a Diwylliant: Cyfrol Deyrnged Dewi Z. Phillips* (Tal-y-bont: Y Lolfa).

Goodman, N. (1978), *Ways of Worldmaking* (Indianapolis: Hackett).

Hanfling, O. (1981) (gol.), *Essential Readings in Logical Postivism* (Oxford: Blackwell).

Hardie, C. D. (1938), 'Logical positivism and scientific theory', *Mind*, 47, 214–25.

Jones, D. J. (1938), 'Nodiadau: byr hanes Adran Athronyddol Urdd y Graddegion 1931–7', *Efrydiau Athronyddol*, 1, 72–7.

Jones, J. R. (1938), 'Sylwadau ar broblem natur yr hunan', *Efrydiau Athronyddol*, 1, 42–65.

Jones, J. R. (1949) 'Cynhadledd Harlech', *Efrydiau Athronyddol,* 12, 46–48.

Jones, J. R. (1950), 'Ann Griffiths', *Efrydiau Athronyddol*, 13, 38–42.

Jones, J. R. (1957), 'Metaffiseg Platon', *Efrydiau Athronyddol*, 20, 17–32.

Jones, J. R. (1961), 'Y syniad o genedl', *Efrydiau Athronyddol*, 24, 3–17.

Jones, J. R. (1966), *Prydeindod* (Llandybie: C. Davies).

Jones, J. R. (1970), *Gwaedd yng Nghymru* (Lerpwl: Cyhoeddiadau Modern Cymreig).

Lewis, S. (2012), *Tynged yr Iaith* (Llandysul: Gwasg Gomer).

Locke, J. (1964), *Two Treatises of Government*, gol. Laslett, P. (Cambridge: Cambridge University Press).

Matthews, E. Gwynn (1986), 'Addysg oedolion', *Efrydiau Athronyddol* 49, 58–68.

Matthews, E. Gwynn (2012) (gol.), *Cred, Llên a Diwylliant: Cyfrol Deyrnged Dewi Z. Phillips* (Tal-y-bont: Y Lolfa).

Matthews, E. Gwynn (2013) (gol.), *Cenedligrwydd, Cyfiawnder a Heddwch* (Tal-y-bont: Y Lolfa).

Matthews, E. Gwynn (2014) (gol.), *Y Drwg, y Da a'r Duwiol* (Tal-y-bont: Y Lolfa).

Parry-Williams, T. H. (1952), 'Dychymyg mewn barddoniaeth', *Efrydiau Athronyddol*, 15, 4–11.

Phillips, D. (1998), *Trwy ddulliau chwyldro...? Hanes Cymdeithas yr Iaith Cymraeg 1962–1992* (Llandysul: Gwasg Gomer).

Phillips, D. A. (1938), 'Y syniad o werth', *Efrydiau Athronyddol*, 1, 22–41.

Phillips, D. Z. (1971), 'Crefydd a metaffiseg', *Efrydiau Athronyddol*, 34, 31–45.

Phillips, D. Z. (1993), 'Pam achub iaith?', *Efrydiau Athronyddol*, 56, 1–12.

Phillips, D. Z. (1995), *J. R. Jones* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).

Phillips, D. Z. (2008), *Ffiniau* (Tal-y-bont: Y Lolfa).

Powell, P. (1987), 'Gwybodaeth a gwyddoniaeth', *Efrydiau Athronyddol*, 50, 47–54.

Rees, W. J. (1993), 'Dosbarthiad o'r prif erthyglau', *Efrydiau Athronyddol,* 56, 90–104.

Roberts, T. A. (1979), 'Syniadau J. S. Mill ar ryddid yr unigolyn', *Efrydiau Athronyddol*, 42, 80–93.

Sellars, W. (1956), 'Empiricism and the philosophy of mind', yn Feigl, H., a Scriven, M. (goln), *Minnesota Studies in the Philosophy of Science Vol I* (Minneapolis: University of Minnesota Press), tt. 253–329.

Suits, B. (1978), *The Grasshopper: Games, Life and Utopia* (New York: Broadview Press).

Thomas, A. (1938), 'Safle crefydd yn Rwsia', *Y Traethodydd,* 406, 34–7.

Thomas, M. W. (1989), 'Meddwl Cymru: hanes ein llên', *Efrydiau Athronyddol*, 52, 34–47.

Williams, G. (1986), 'Addysg yng Nghymru yn yr Oesoedd Canol', *Efrydiau Athronyddol*, 49, 59–69.

Williams, J. A. (1967), 'Y plentyn a throsedd', *Efrydiau Athronyddol*, 30, 35–46.

Williams, W. (2010), 'Pa beth yw dyn?', *Dail Pren: Cerddi Waldo Williams* (Llandysul: Gwasg Gomer).

Wittgenstein, L. (1953), *Philosophical Investigations* (Oxford: Blackwell).

Wodehouse, H. (1938), 'Language and moral philosophy', *Mind*, 47, 200–13.